**YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU**

**GERBRON Y GWIR ANRHYDEDDUS FARWNES HALLETT D.B.E.**

---

# SYLWADAU AGORIADOL MODIWL 6
# LLYWODRAETH CYMRU

---

## Cyflwyniad

1. Cafodd y pandemig effaith bellgyrhaeddol ar y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a phoblogaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ystyriaeth yr Ymchwiliad ac yn cydnabod bod gwersi allweddol i'w dysgu o ran nodi arferion da i'w cynnal mewn perthynas â pharodrwydd ar gyfer pandemig arall yn y dyfodol ac o ran gwneud argymhellion ynglŷn â'r hyn y gellid bod wedi ei wneud yn well.

## Cefndir gofal cymdeithasol yng Nghymru

2. Ers 1999, mae gofal cymdeithasol yn swyddogaeth ddatganoledig. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi gofal cymdeithasol ac mae ei swyddogaethau yn cynnwys rheoleiddio ac arolygu'r sector gofal cymdeithasol. Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion a gofal plant, sy'n arfer swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

3. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gosod polisi gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol yn statudol am ddarparu gofal cymdeithasol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae strwythur gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'i rannu'n wasanaethau plant, gwasanaethau oedolion, gofal yn y gymuned a gofal preswyl.

4. Bu'n flaenoriaeth ers tro i Lywodraeth Cymru integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2018, cyhoeddwyd 'Cymru Iachach'[1], sy'n nodi cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer 'dull system gyfan' i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u swyddogaethau statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ôl y gyfraith ac yn ymarferol, gydweithio i nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth (ac anghenion cymorth gofalwyr) y boblogaeth yn eu hardal. Mae iechyd hefyd yn faes datganoledig y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdano.

---

[1] AH1/004-INQ000066130

**Strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

5. Mae'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o bum grŵp yn Llywodraeth Cymru. Yn ystod y pandemig, roedd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyfarwyddiaethau canlynol: (a) Cafcass Cymru, (b) Cyflawni, perfformiad a chynllunio ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, (c) Cyllid, (d) Iechyd meddwl, grwpiau agored i niwed a llywodraethu'r GIG, (e) Nyrsio, (f) Iechyd y boblogaeth (gan gynnwys Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol), (g) Gofal sylfaenol a gwyddor iechyd, (h) Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio (i) Technoleg, digidol a thrawsnewid, ac (j) Y Gweithlu a datblygu sefydliadol

6. O fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio oedd yn gyfrifol am bolisi gofal cymdeithasol oedolion drwy gydol y pandemig. Fel y nodwyd uchod, y 22 o awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am ofal cymdeithasol oedolion o hyd. Gellir gweld strwythur y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn y siart sefydliadol. [2]

7. Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o grwpiau a chyrff a oedd â rôl allweddol wrth lunio ymateb y systemau iechyd a gofal cymdeithasol i Covid-19 drwy gydol cyfnod y pandemig.

8. Yn ystod y pandemig, cafodd seilwaith a systemau presennol y llywodraeth eu hategu gan grwpiau neu strwythurau pwrpasol a sefydlwyd i reoli heriau'r pandemig. Trafodwyd ymateb y system iechyd a gofal cymdeithasol i Covid-19 mewn nifer o'r grwpiau hyn, er enghraifft:
    (a) Rhoddodd y Grŵp Cyngor Technegol a'r Gell Cyngor Technegol gyngor arbenigol. Roedd cyngor y Grŵp Cyngor Technegol yn aml yn annog y broses o integreiddio mesurau iechyd y cyhoedd â gwasanaethau cymdeithasol:
    (b) Sefydlodd is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru hyb dadansoddi Covid-19. Bu'r hyb yn bwynt cydlynu canolog yn Llywodraeth Cymru ar gyfer data ac ystadegau ar Covid-19 a darparodd ddata a dadansoddiadau amser real a lywiodd y gwaith o ddatblygu polisi ar gyfer gofal cymdeithasol;
    (c) Daeth Grŵp Cynllunio ac Ymateb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Covid-19 â chynrychiolwyr strategol o'r Grŵp, cyrff y GIG a'r sector gofal cymdeithasol ynghyd. Ei rôl oedd cydlynu'r gwaith o gynllunio ymateb wrth gefn, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamau gweithredu a threfniadau wrth gefn, a darparu rhyngwyneb strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a swyddogion. Crëwyd saith is-grŵp, gan gynnwys is-grŵp gofal cymdeithasol:
    (d) Ymhlith grwpiau perthnasol arall roedd: Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 Cymru, Strategaeth Profi a Rheoli Heintiau a Grŵp

[2] Gellir gweld siart sefydliadol yn AH2/001-INQ000495978

Datblygu Polisi Gofal Cymdeithasol, y Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd, Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, yr is-grŵp Iechyd a Llesiant a'r Byrddau Ailadeiladu a Sefydlogi.

9. Yn ogystal â'r grwpiau hyn, llwyddodd Llywodraeth Cymru i gynnal cydberthnasau pwysig â sefydliadau allanol ym mhob rhan o'r sector, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill, gan gynnwys Fforwm Gofal Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Cymru), Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

10. Arolygiaeth Gofal Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi sicrwydd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

11. Yn ystod y cyfnod perthnasol rhwng 1 Mawrth 2020 a 28 Mehefin 2022, ymgysylltodd Arolygiaeth Gofal Cymru yn helaeth â'i rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed gan lunwyr polisi. Rhannodd hefyd ei chanfyddiadau o ganlyniad i arfer ei swyddogaethau rheoleiddio a'r adborth a gafodd fel rhan o'i galwadau dal i fyny neu fonitro â darparwyr.

12. Yn wyneb y pandemig, ac er mwyn bwrw ymlaen â gwaith cofrestru, ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru erthygl newyddion ar ei gwefan yn nodi y byddai'r broses gofrestru yn cael ei haddasu er mwyn helpu i greu capasiti ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion.

13. Roedd hyn yn golygu y byddai timau cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhoi blaenoriaeth i feysydd gwaith yn y drefn ganlynol:

(a) Pob math o waith cofrestru ac addasu a oedd yn helpu darparwyr i ddarparu gwasanaeth o ganlyniad i Covid-19;
(b) Pob math o waith cofrestru ac addasu a oedd yn sicrhau capasiti ychwanegol yn y sector;
(c) Cofrestru gwasanaethau a oedd yn gweithredu heb gofrestriad;
(d) Cofrestriadau ac amrywiadau risg uchel, er enghraifft yn ymwneud â phrynu gwasanaethau a oedd yn nwylo'r gweinyddwyr; ac
(e) Pob math o waith cofrestru ac amrywio arall.

14. Ym mis Ebrill 2020, lluniwyd canllawiau[3] i ddarparwyr ac ymgeiswyr. Yn yr un modd, darparwyd canllawiau i arolygwyr4 i'w helpu i benderfynu sut y dylent addasu'r broses gofrestru yn dibynnu ar y cyfyngau Covid-19 a oedd ar waith ar y pryd.

15. Ym mis Tachwedd 2020[5], cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru ganllawiau diwygiedig pellach yn amlinellu'r broses ar gyfer cofrestru gwasanaethau. Roedd y canllawiau yn cynnwys llawer o'r prosesau wedi'u haddasu a nodwyd yng nghanllawiau mis Ebrill 2020, ac roeddent yn cyflwyno dull mwy cynnil o gynnal ymweliadau safle ac yn nodi pryd y byddai'r Arolygiaeth yn ymweld â gwasanaethau yn bersonol. Cafodd y canllawiau hyn eu diddymu yn gynnar yn 2022 wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

16. Mae data ar yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod perthnasol wedi'u nodi yn natganiad tyst Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Penderfyniadau i Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty**

17. Mae'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod y pandemig wedi bod yn destun pryder i randdeiliaid a'r cyhoedd. Roedd natur ddigynsail y pandemig yn golygu bod angen gwneud penderfyniadau cyflym mewn amgylchiadau eithriadol gan ganolbwyntio ar sicrhau diogelwch cleifion ac atal ysbytai rhag gorlenwi. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau yn gyflym, o dan bwysau, yn ystod y cyfnodau cynnar, pan nad oedd gwybodaeth gyflawn ar gael am esblygiad y feirws.

18. Y model Rhyddhau i Adfer yna Asesu oedd sail y canllawiau Covid-19 i helpu i amddiffyn pobl rhag dod i gysylltiad â'r feirws mewn sefydliadau ac i gynyddu capasiti gwasanaethau i'r eithaf.

19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn esbonio ei fod wedi cytuno ar fframwaith [6]o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed. Datblygwyd y fframwaith hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol yn ystod y pandemig ac i leihau unrhyw oedi mewn perthynas â dewis cartref gofal. Byddai hyn yn sicrhau bod gwelyau ysbyty ar gael i gleifion yr oedd eu hangen arnynt pan fyddai unrhyw gynnydd sydyn yn y galw ac yn diogelu cleifion drwy osgoi risgiau i gleifion yn sgil cyfnodau hir yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty. Ffurfiolwyd y mesurau hyn ar 20 Mawrth 2020.

20. Ar 8 Ebrill 2020, cyhoeddwyd Canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, "Admission and Care of Residents during Covid-19 Incident in a Residential Care Setting"[7]. Roedd y

[3] GB2/014-INQ000501660
[4] GB2/015-INQ000497207
[5] GB2/017-INQ000496073
[6] AH2/134-INQ000198262
[7] AH2/174-INQ000283271

canllawiau hyn yn efelychu canllawiau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill. Nid oedd y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i glaf gael prawf negatif cyn cael ei drosglwyddo/derbyn i leoliad preswyl ac roeddent yn cynghori dull asesu risg gan ganolbwyntio ar fesurau atal a rheoli heintiau.

21. Ar 15 Ebrill 2020, cysylltodd Llywodraeth Cymru ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi ei bod am i ddull diwygiedig o brofi gael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, gan gynnwys profi cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Ar 22 Ebrill 2020, ysgrifennodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Meddygol (Cymru) at bob darparwr cartref gofal ac awdurdod lleol yn cadarnhau y byddai profion yn cael eu cynnal ar gleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac y byddai canllawiau Llywodraeth Cymru ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dderbyn a gofalu am gleifion yn ystod Covid-19 yn cael eu diweddaru.

22. Ar 24 Ebrill, anfonwyd llythyr arall at y byrddau iechyd yn cadarnhau'r newid yn y polisi ac y byddai canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi. Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod systemau ar waith i brofi unigolion 48 awr cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac i brofi preswylwyr cartrefi gofal a'r rheini yn y gymuned cyn eu trosglwyddo neu eu derbyn i gartref gofal newydd.

23. Ar 29 Ebrill 2020, cyhoeddwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar ryddhau cleifion o'r ysbyty. Roeddent yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gael canlyniad prawf negatif cyn cael ei ryddhau o'r ysbyty i leoliad presennol neu becyn gofal, gan gynnwys y rheini a oedd yn cael cymorth yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cyfleusterau byw â chymorth.

24. Ar 7 Mai 2020, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan y teitl newydd, “Guidance to Prevent COVID-19 Among Care Home Residents and Manage Cases and Outbreaks in Residential Care Settings in Wales”. Roedd y canllawiau diwygiedig yn cyfeirio at y llythyrau a anfonwyd ar 22 a 24 Ebrill 2020 ac yn cadarnhau bod polisi Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd brofi pob unigolyn cyn ei ryddhau o'r ysbyty i leoliad llai dwys neu gartref gofal p'un a gafodd ei dderbyn i'r ysbyty gyda Covid-19 ai peidio, ac na fyddai pobl yn cael eu derbyn i gartref gofal heb brawf negatif.

25. Drwy gydol y cyfnod hwn, cysylltodd Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol â swyddogion yn Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau technegol pwrpasol yn cael eu llunio ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

26. Cafodd y dewis o gartref gofal wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty ei atal dros dro. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn caniatáu proses ryddhau anwahaniaethol i leoliadau cartref gofal. Roedd hyn yn caniatáu i unigolyn gael ei ryddhau i leoliad interim, a allai ddiwallu ei anghenion nes y byddai lle ar gael yn ei ddewis gartref gofal. Roedd hyn yn ffordd o daro cydbwysedd rhwng yr angen i sicrhau capasiti cleifion mewnol digonol mewn

ysbyty, lleihau'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â derbyn claf i'r ysbyty a diwallu anghenion claf yn wyneb pwysau digynsail yn ystod y pandemig.

**Mesurau atal a rheoli heintiau**

27. Yn ystod pob cam o'r pandemig, gofynnwyd i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gadw at ganllawiau'r DU ar atal a rheoli heintiau. Roedd y canllawiau yn seiliedig ar adolygu'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol yn barhaus ac roeddent yn cael eu cyhoeddi ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon a Public Health Scotland, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a NHS England – a elwid hefyd yn ‘Gell Atal a Rheoli Heintiau'r DU’. Pennodd canllawiau ar gyfer y DU gyfan a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2020 y dylai unrhyw un a oedd yn rhoi gofal uniongyrchol o fewn dau fetr i breswylydd mewn lleoliad gofal, gan gynnwys cartref gofal, lle roedd achos a gadarnhawyd neu a amheuwyd o Covid-19, wisgo menyg llawfeddygol, ffedog blastig, masg llawfeddygol math IIR a chyfarpar diogelu'r llygaid/wyneb[8].

28. At hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd i ddarparu cyngor, canllawiau ac arweinyddiaeth i bob lleoliad gofal iechyd, gan gynnwys cartrefi gofal, er mwyn lleihau achosion o drosglwyddo'r haint a sicrhau bod modd ailddechrau gwasanaethau yn ddiogel. Cyhoeddodd y Grŵp a'r tîm polisi cysylltiedig amrywiaeth o ganllawiau [9]wrth i'r sylfaen dystiolaeth ddatblygu a oedd yn ategu canllawiau'r DU y cyfeirir atynt uchod.

**Cyfarpar diogelu personol yn y sector**

29. Roedd darparu cyfarpar diogelu personol priodol o safon uchel yn flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau diogelwch a llesiant y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhai a oedd yn cael gofal.

30. Ar 18 Gorffennaf 2020, ymrwymodd y llywodraethau datganoledig a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth [10]mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol a pharodrwydd am ffliw pandemig. O dan y Memorandwm, y DU yw'r prif brynwr ac mae'n cynnal ymarferion caffael ar ran y pedair gwlad. Goruchwyliodd Grŵp Gwrthfesurau Iechyd Llywodraeth Cymru y cyflenwad cenedlaethol o gyfarpar diogelu personol, a bu'r cyflenwad ar gyfer ffliw pandemig yn hanfodol ar ddechrau'r pandemig.

31. Yn ystod y pandemig, cafodd y cyflenwad a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer pandemig yng Nghymru ei ategu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a lwyddodd i gaffael a dosbarthu cyfarpar diogelu personol ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru.

---

[8] Paragraff 468 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[9] AH2/298-INQ0000227417
[10] AH2/289-INQ000177454

O fis Mawrth 2020, ehangodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei broses cyflenwi a dosbarthu ar gyfer byrddau iechyd y GIG i un a oedd yn cyflenwi cyfarpar i awdurdodau lleol i'w dosbarthu i'r sector gofal cymdeithasol, yn ogystal lleoliadau gofal sylfaenol. Ar 19 Mawrth 2020, cafodd hyn ei amlinellu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Datganiad Ysgrifenedig. [11]

32. Cafodd cell cyfarpar diogelu personol ar wahân ei chynnull, gyda chyfarwyddwr gweithredol yn cadeirio'r grŵp, er mwyn sicrhau amlygrwydd ac arweinyddiaeth mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol. Cyfarfu'r gell cyfarpar diogelu personol ar ddiwedd mis Ebrill 2020 i rannu gwybodaeth am faterion lleol a'r ymateb cenedlaethol. Cafodd y Gell Cyfarpar Diogelu personol y dasg o (i) adolygu ffynonellau o gyfarpar diogelu personol i Gymru, (ii) ystyried cronni cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol, a (iii) asesu'r trefniadau ar gyfer dosbarthu cyfarpar diogelu personol ledled Cymru i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd pob un o'r tasgau hyn yn amlweddog ac yn gofyn am gydweithio â nifer o sefydliadau. Cyflwynodd y Gell Cyfarpar Diogelu Personol adroddiadau rheolaidd i Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a rhoddodd hefyd sicrwydd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cydweithiodd hefyd â Dirprwy Weinidog yr Economi er mwyn cefnogi prosesau gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol yng Nghymru.

33. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad 'Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19'[12], a ddarparodd adolygiad annibynnol o'r ymdrechion cenedlaethol i gyflenwi cyfarpar i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a llywodraeth leol. Nododd yr adroddiad hwn nad oedd y trefniadau cydweithio rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, llywodraeth leol a'r sector gofal cymdeithasol wedi'u datblygu cystal â'r rheini rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r GIG (gan nad oedd gwaith craidd blaenorol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnwys cyflenwi'r sector gofal cymdeithasol). Erbyn 7 Mai 2020, nodwyd bod tua dwy ran o dair o anghenion cyfarpar diogelu personol y sector gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Rhwng 9 Mawrth 2020 a 2 Chwefror 2021, darparodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 630 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol i'r sector; yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021, cafodd tua hanner y cyflenwad hwn ei ddarparu i'r sector gofal cymdeithasol.

34. Yn bwysig, dangosodd data Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru na fu unrhyw achos o ddiffyg cyfarpar diogelu personol yn genedlaethol, er bod y cyflenwad o rai eitemau wedi cyrraedd lefel isel iawn. Ar adegau, manteisiodd Cymru ar gydgymorth gan wledydd eraill ond yn y pen draw, darparodd llawer mwy o gydgymorth na'r hyn a gafodd.

---

[11] AH2/296-INQ000383574
[12] AH2/349-INQ000214235

35. Yn gyffredinol, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, darparodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fwy na 1.3 biliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; o blith y rhain, dosbarthwyd dros 550 miliwn i'r sector gofal cymdeithasol.

**<u>Profi</u>**

36. Un o'r heriau allweddol oedd y ffaith bod y sylfaen dystiolaeth yn esblygu mewn perthynas â phrofi, a'r posibilrwydd o gael canlyniadau anghywir, ar ddechrau'r pandemig. Y cyngor a gafodd Llywodraeth Cymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd bod dilyn mesurau atal a rheoli heintiau cyffredinol (fel cadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol) yn ofalus yn fwy effeithiol na phrofi fel ffordd o ddiogelu pobl. Yn ystod camau cynnar y pandemig, dim ond capasiti cyfyngedig i brofi oedd ar gael drwy'r system labordai, a bu'n rhaid i'r capasiti hwn gael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl.

37. Er mwyn gwella cysondeb rhwng safbwyntiau polisi clinigol, technegol, iechyd y cyhoedd, gweithredol a gofal cymdeithasol mewn perthynas â phrofi mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Strategaeth Profi a Rheoli Heintiau a Grŵp Datblygu Polisi Gofal, gyda'r nod o sicrhau dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Ystyriodd y Grŵp ddyluniad strategaethau profi ac atal a rheoli heintiau a'r broses o'u rhoi ar waith yn y sector gofal cymdeithasol. Cafodd fforwm Arweinwyr Profi Gofal Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys arweinwyr profi o awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ei gynnull.

38. Cyhoeddwyd y cynllun ar gyfer gofal cymdeithasol ar 23 Rhagfyr 2020[13]. Y cynllun hwn a oedd yn benodol i'r sector oedd y cyntaf o'i fath yn y DU, ac roedd yn cysylltu'r trefniadau ar gyfer profi ac atal a rheoli heintiau yn y sector gofal cymdeithasol â dogfen ar y lefelau rhybudd cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 15 Rhagfyr 2020. Cafodd y ddogfen ei chroesawu gan y sector gofal cymdeithasol, a oedd yn gwerthfawrogi'r eglurder ynghylch y trefniadau profi ar gyfer pob rhan o'r sector a'r gallu i ragweld y disgwyliadau o ran profi pe bai lefelau rhybudd yn newid.

39. Pan gyflwynwyd profion llif unffordd yn eang, a daeth pobl yn gyfarwydd â'r dechnoleg brofi, cafwyd ceisiadau cynyddol i'r profion fod ar gael ar gyfer lleoliadau a gwasanaethau gofal cymdeithasol ehangach, a thros amser, cafodd y lleoliadau a'r gwasanaethau hyn eu hychwanegu at y rhaglen brofi. Cafodd y rhaglen ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru mewn ymateb i anghenion y boblogaeth, y sylfaen dystiolaeth a oedd yn datblygu a'r cynnydd yn y gallu i brofi.

[13] AH2/409-INQ000136834, AH2/249-INQ000081729

40. Fel pob un o wledydd y DU, wynebodd Llywodraeth Cymru heriau sylweddol o ganlyniad i'r cyfyngiadau o ran y gallu i brofi yn ystod camau cynnar y pandemig. O ganlyniad, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â ble y dylid defnyddio'r profion hynny a oedd ar gael er mwyn diogelu pobl yng Nghymru yn y ffordd orau posibl. Roedd y penderfyniadau hynny yn seiliedig ar gyngor gan swyddogion, y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau, a chynghorwyr gwyddonol Llywodraeth Cymru. Yn anochel, mae sefydlu seilwaith profi ar gyfer feirws newydd yn cymryd amser er mwyn gwneud gwaith ymchwil a datblygu, ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sicrhau bod gan Gymru raglen profi cyflym y gellir ei ehangu a'i rhoi ar waith yn gyflym os bydd pandemig yn y dyfodol, yn allweddol er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol.

**Cyfyngiadau ar ymweliadau ac ymweld â chartrefi gofal**

41. Nod y cyfyngiadau mewn cartrefi gofal oedd cydbwyso'r risg i'r rheini a allai fynd yn ddifrifol wael pe baent yn dal y feirws â'r angen i hyrwyddo anghenion cymdeithasol a llesiant preswylwyr a risgiau i weithlu'r sector gofal. Cydnabuwyd bod y cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal wedi cael effaith benodol ar lesiant preswylwyr.

42. Lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol, y bwriadwyd iddynt helpu darparwyr i wneud penderfyniadau am ymweliadau o fewn fframwaith rheoleiddio cyfyngiadau deddfwriaethol cyffredinol Covid-19. Cafodd y canllawiau eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymateb i'r newid yn lefel y risg:

(a) Ar 23 Mawrth 2020, anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr[14] at bob darparwr cartref gofal cofrestredig yng Nghymru yn nodi mai dim ond ymweliadau hanfodol y dylid eu caniatáu ac yn cydnabod yr angen i hyrwyddo cyswllt rheolaidd dros y ffôn â theulu a ffrindiau;
(b) Ar 27 Mai 2020, yn dilyn cyfarfod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, cytunwyd y dylid llunio canllawiau ar y cyd â'r sector ar ymweliadau â chartrefi gofal;
(c) Ym mis Mehefin 2020, pan ganiatawyd i ddwy aelwyd gwrdd yn yr awyr agored, cynigiwyd cymorth a chanllawiau i ddarparwyr cartrefi gofal, gan gynnwys yr argymhelliad i gynnal asesiad risg ar gyfer pob ymweliad a dilyn y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol;
(d) Ar 25 Mehefin 2020, cyhoeddwyd fersiwn 1[15] o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ymweld â chartrefi gofal, a chyhoeddwyd fersiwn 2 wedi'i diwygio ychydig ar 7 Gorffennaf 2020. Ailgyflwynwyd ymweliadau dan do yn fersiwn 3[16], a gyhoeddwyd ar 28 Awst 2020. Bu'n rhaid cyflwyno cyfyngiadau lleol ym mis Medi 2020 o ganlyniad i frigiadau o achosion mewn "mannau problemus o ran yr haint", gan atal ymweliadau â chartrefi gofal dros dro heblaw mewn

[14] AH2/209-INQ000336332
[15] AH2/219-INQ000081250
[16] AH/222-INQ000337012

amgylchiadau tosturiol. Drwy gydol y cyfnod hwn, parhaodd nifer o ddarparwyr i hwyluso ymweliadau yn yr awyr agored gan gadw pellter cymdeithasol;

(e) Cafodd ymweliadau eu cyfyngu eto yn ystod y cyfnod atal byr a gyflwynwyd rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd 2020.

43. Ar ôl y cyfnod atal byr, ar 23 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun podiau ymweld i alluogi ymweliadau yn yr awyr agored dros gyfnod y gaeaf. Erbyn 27 Rhagfyr 2020, cadarnhawyd bod y pod ymweld cyntaf wedi'i osod, ac y byddai 80 o bodiau yn barod i'w defnyddio erbyn Nadolig 2020. O dan y cynllun peilot, darparwyd 100 o bodiau ymweld am ddim i gartrefi gofal a darparwyd cyllid ar gyfer 55 o bodiau ymweld ychwanegol i ddarparwyr a oedd yn dewis gwneud eu trefniadau eu hunain.

44. Dros Nadolig 2020, roedd Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol [17] yn gymwys, a oedd yn annog asesiadau risg lleol ac unigol ac yn cynghori yn erbyn dulliau gweithredu cyffredinol. Cydnabyddir bod aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi rhwystredigaeth a dryswch dros y cyfnod hwn mewn perthynas ag amharodrwydd rhai cartrefi gofal i hwyluso ymweliadau, a pharhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol a'r rheini a oedd yn eirioli dros breswylwyr cartrefi gofal i drafod pryderon ac annog ymweliadau diogel o fewn cwmpas y rheolau.

45. Ar 1 Chwefror 2021, cyhoeddwyd fersiwn 4 o'r canllawiau. Erbyn 22 Chwefror 2021, ailgyflwynwyd ymweliadau dan do yn amodol ar reolaethau amrywiol, a gadarnhawyd yn fersiwn 5[18] o'r canllawiau. Yn fersiwn 6 o'r canllawiau, caniatawyd dau ymwelydd dynodedig ar gyfer ymweliadau dan do rheolaidd. Cyhoeddwyd cyfanswm o 14 o fersiynau o'r canllawiau, ac ar ôl hynny, symudwyd i Lefel Rhybudd 0 yng Nghymru gan olygu bod modd cynnal ymweliadau mwy arferol â chartrefi gofal ac oddi yno.

46. I grynhoi, ceisiodd Llywodraeth Cymru daro cydbwysedd rhwng diogelu preswylwyr agored i niwed mewn cartrefi gofal rhag y feirws a hyrwyddo cyswllt â'r teulu a chyswllt cymdeithasol, yn ogystal â hybu llesiant staff cartrefi gofal. Bwriad y canllawiau oedd annog darparwyr i ymateb fesul achos ac ni fwriadwyd iddynt gael eu hystyried yn bolisi cyffredinol. Atgoffodd y llywodraeth ddarparwyr mewn llythyrau niferus o bwysigrwydd osgoi dull a oedd yn cyfyngu'n ddiangen, a phwysigrwydd ystyried ac asesu risg achosion yn unigol.

47. Ochr yn ochr ag ymweliadau â chartrefi gofal, defnyddiwyd dull arloesol o leihau effaith diffyg ymweliadau ar y rheini a oedd yn cael gofal. Roedd Cynllun Benthyg Dyfeisiau ar waith a chafodd ei ehangu i gynnwys cartrefi gofal gyda'r nod o leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Ar 6 Gorffennaf 2020, roedd Cymunedau Digidol Cymru

[17] AH2/257-INQ000081899
[18] AH2/253-INQ000337529

wedi darparu 1,009 o ddyfeisiau i 559 o gartrefi gofal ledled Cymru ac wedi darparu hyfforddiant i 350 o staff rheng flaen. [19]

## Gweithlu'r sector gofal cymdeithasol

48. Yn ôl data, roedd 75,711 o oedolion yng Nghymru yn cael gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth ar 31 Mawrth 2019. Ar 1 Ebrill 2020, roedd 1,579[20], o gartrefi gofal oedolion (cartrefi nyrsio, cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau cymorth cartref) yng Nghymru.

49. Yn ystod y pandemig, cydnabu Llywodraeth Cymru fod cymorth ariannol i weithwyr gofal cymdeithasol yn hanfodol. Rhoddwyd cyfres o fesurau penodol ar waith i hybu llesiant y gweithlu.

50. Cafodd adnodd asesu risg yn y gweithle (Adnodd Asesu Risg Covid-19 ar gyfer y Gweithlu) ei lunio'n benodol i asesu'r risgiau a wynebwyd gan staff unigol yn eu gweithle fel bod modd rheoli'r risgiau'n briodol. Roedd yr adnodd, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Grŵp Cynghori ar Covid-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y risg uwch a wynebwyd gan unigolion oherwydd eu hoedran, eu hethnigrwydd a'u cyflyrau iechyd sylfaenol. Cyhoeddwyd adnodd Asesu Risg penodol ar 26 Mai 2020 ochr yn ochr â chanllawiau cysylltiedig[21]. Lluniwyd Canllaw Sgyrsiau Llesiant ar gyfer y Gweithlu gyda'r nod o gyfeirio staff at gymorth ac ymyriadau priodol i gefnogi eu llesiant.

51. Sefydlwyd y Cynllun Taliadau Arbennig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn cydnabod lefel sylweddol y risg sylweddol a wynebwyd gan weithwyr gofal a'r cyfrifoldeb arnynt yn ystod y pandemig. Cymeradwywyd taliad untro o £500 i staff gofal cymdeithasol ar ôl ystyried cyngor[22] yn seiliedig ar amcangyfrif o 64,600 o staff cymwys, a chyhoeddwyd canllawiau ar y cynllun ar 7 Awst 2020[23].

52. At hynny, darparwyd cymorth emosiynol i staff iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r llinell gymorth llesiant i weithwyr y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Aeth Llywodraeth Cymru ati hefyd i gomisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal arolwg cyflogwyr er mwyn deall effaith y pandemig ar y gweithlu.

## Capasiti'r gweithlu

[19] AH2/274-INQ000498715
[20] Paragraff 178 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[21] AH2/279INQ000023242
[22] AH2/084-INQ000144869 a AH2/085-INQ000144895
[23] AH2/088-INQ000081223

53. Nododd Llywodraeth Cymru heriau'r sector yng Nghynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021/2022[24], a chydnabu bod Cymru yn dal i'w chael hi'n anodd cadw staff a recriwtio i weithlu'r sector gofal. Roedd yr heriau hyn yn bodoli cyn y pandemig a gwnaethant barhau yn ystod y pandemig.

54. Gwnaed gwaith hefyd i gynyddu capasiti'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol. Ers mis Mehefin 2020, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, wedi'i dalu i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. At hynny, ariannodd Llywodraeth Cymru raglen waith i wella cyfraddau recriwtio gan gynnwys hysbyseb deledu ac ymgyrch hysbysebu, porth swyddi a chyllid ar gyfer cwrs cyflwyniad i ofal cymdeithasol pedwar diwrnod am ddim. Gwnaed gwaith hefyd i hyrwyddo cynlluniau prentisiaeth gyda'r sector gofal cymdeithasol, gan gefnogi cyflogwyr i gyflogi prentisiaid. Nod penodol y gweithgarwch hwn oedd recriwtio i'r sector gan gydnabod y prinder staff ym maes gofal cartref ac mewn cartrefi gofal.

**Brechu**

55. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod brechu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cyflwyno nifer o heriau o ganlyniad i'r gyfradd trosiant staff flynyddol, sef 30%, problemau o ran diffinio rolau gofal cymdeithasol, a'r ffaith nad oedd yn ofynnol i bob gweithiwr gofrestru â gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, bu'r gwaith o frechu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn llwyddiannus iawn a chafodd canran uchel iawn o'r gweithlu y brechlyn.

56. *Ni* wnaed brechiad yn amod lleoli ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd y mater hwn ei ystyried yn ofalus gan Weinidogion Cymru, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen cyflwyno rhaglen frechu orfodol am fod cyfran fawr o'r gweithlu wedi dewis cael y brechlyn.

57. Ar 16 Mehefin 202, roedd 92.3% o weithwyr cartrefi gofal wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn ac roedd 85.7% wedi cael eu hail ddos. Roedd y cyfraddau hyn yn llawer uwch na'r trothwy gofynnol a argymhellwyd gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau.

**Cymorth i ofalwyr di-dâl**

58. Cymerwyd camau i gefnogi gofalwyr a allai fod wedi teimlo'n ynysig o ganlyniad i newidiadau i'w cyswllt cymdeithasol arferol a strwythurau cymorth yn ystod y pandemig. Rhoddodd Cronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru £50,000 ychwanegol i Gofalwyr Cymru i ehangu eu cymorth iechyd meddwl ar gyfer gofalwyr. [25]

---

[24] EM/078-INQ000480015
[25] INQ000103916

59. Sefydlwyd Grant Cefnogi Gofalwyr o £1 filiwn i gefnogi gofalwyr, i'w reoli gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a dyrannwyd £250,000 o gyllid ychwanegol ym mis Rhagfyr 2020. [26] Mae'r Grant Cefnogi Gofalwyr yn dal i fod ar waith heddiw.

60. I gydnabod yr effaith ar ofalwyr yn ystod y pandemig a diffyg mynediad at rwydweithiau cymorth arferol, ymrwymwyd cyllid i wella gwasanaethau seibiant er mwyn atal blinder meddyliol ymysg gofalwyr. Mae cynllun seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yn dal i fod ar waith.

61. Gan gydnabod rôl allweddol gofalwyr di-dâl, ym mis Mawrth 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer taliad untro o £500[27] i ofalwyr di-dâl yng Nghymru i gydnabod y pwysau ariannol roeddent wedi eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.

62. Ar 22 Mai 2020, cytunodd Llywodraeth Cymru i gynnwys gofalwyr di-dâl yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwi cyfarpar diogelu personol.

**Cartrefi gofal**

63. Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd Grŵp Cynllunio ac Ymateb i'r Coronafeirws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ganllawiau ar barodrwydd ac ymateb i Covid-19 ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y bwriad oedd i'r canllawiau hyn gael eu darllen ar y cyd â chanllawiau eraill, yn enwedig 'Wales Health and Social Care Influenza Pandemic Preparedness and Response Guidance 2014'.

64. Yn ystod y pandemig, ceisiodd Llywodraeth Cymru roi gwersi a ddysgwyd o'r don gyntaf o heintiau ar waith yn gyflym. Lluniwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal o ganlyniad i'w dymuniad i ddysgu o brofiadau o'r ymateb cyntaf i Covid-19 ac i baratoi ar gyfer unrhyw don bellach. Nod y Cynllun Gweithredu oedd mynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd yn ystod y don gyntaf, gan gynnwys atgyfnerthu mesurau atal a rheoli heintiau, gwella cymorth i staff a sicrhau llesiant preswylwyr.

65. Cafodd y gwaith ar y Cynllun Gweithredu ei wneud ar yr un pryd ag adolygiad cyflym annibynnol o brofiadau cartrefi gofal yn ystod y pandemig gan yr Athro John Bolton a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020, a wnaeth nifer o argymhellion allweddol [28]ar gyfer cartrefi gofal.

66. Ar 17 Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer Cartrefi Gofal[29]. Roedd llesiant preswylwyr cartrefi gofal wrth wraidd y cynllun hwn ynghyd â phwyslais ar gydgysylltu ymateb y sector gofal cymdeithasol mewn modd strategol cyn

[26] AH2/123-INQ000493728
[27] AH2/129-INQ000499750
[28] Paragraff 170 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[29] EM/013-INQ000336943

yr ail don o heintiau.  Roedd y cynllun yn cadarnhau y byddai camau gweithredu yn y sector yn canolbwyntio ar atal a rheoli heintiau, cyfarpar diogelu personol, cymorth cyffredinol a chlinigol ar gyfer cartrefi gofal, llesiant preswylwyr, llesiant gweithwyr gofal cymdeithasol a chynaliadwyedd ariannol.

67. Roedd y diweddariad terfynol i'r cynllun yn rhestru amrywiaeth eang o gyflawniadau dros y 12 mis blaenorol, gan gynnwys: (i) rhestr wirio atal a rheoli heintiau ar gyfer cartrefi gofal, (ii) cyflwyno'r rhaglen frechu ar gyfer staff a phreswylwyr cartrefi gofal yn llwyddiannus, (iii) cyflwyno tâl salwch statudol uwch i weithwyr gofal, (iv) treialu rhaglenni ar gyfer defnyddio podiau ymwelwyr a phrofi ymwelwyr, a (v) cymorth ariannol parhaus drwy'r Gronfa Galedi ar gyfer Llywodraeth Leol.

**Cyllid**

68. Ariennir llywodraeth leol o dair prif ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (yn cynnwys y Grant Cymorth Refeniw, cronfa ardrethi annomestig, a nifer mawr o grantiau penodol), ardrethi annomestig a threth gyngor[30]. Dyrennir cyllid i awdurdodau lleol i'w wario yn unol ag anghenion ac amgylchiadau lleol ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gofal cymdeithasol, y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn unol â'u prosesau cyllidebol eu hunain. Felly, y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyllid ar ddarparu gyfer gofal cymdeithasol.

69. Roedd sicrhau cymorth ariannol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, a darparwyd adnoddau i awdurdodau leddfu'r pwysau ar y sector, a oedd yn newid yn barhaus.

70. Sefydlwyd y Gronfa Galedi ar gyfer Llywodraeth Leol[31] ym mis Ebrill 2020 er mwyn rhoi cymorth ariannol i awdurdodau lleol mewn perthynas â gwariant ychwanegol yr aed iddo neu refeniw a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig. Dyrannwyd £40 miliwn[32] i ddechrau er mwyn helpu darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion i dalu costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â'r ymateb i Covid-19. Y bwriad oedd i'r cyllid hwn dalu costau cynnal gwasanaethau gofal a oedd yn bodoli eisoes a'r costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â rôl gofal cymdeithasol wrth helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

71. Ym mis Awst 2020, cytunwyd i ddyrannu £22.7 miliwn[33] ychwanegol mewn perthynas â chymorth ariannol pellach i ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion. Bu modd i awdurdodau lleol hawlio ffioedd cenedlaethol safonol dros dro uwch. Nodwyd cyllid pellach mewn perthynas â bylchau mewn cartrefi gofal ac aethpwyd i'r afael â hyfywedd cartrefi gofal yn ystod y pandemig drwy ddyrannu £7.550 miliwn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

[30] Paragraff 98 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[31] AH2/065-INQ000227906
[32] AH1/067-INQ000493730
[33] AH1/070-INQ000493732

72. Ym mis Mehefin 2021, cytunwyd i ddyrannu £2.116m[34] ar gyfer Cymorth Hosbis a Gofal Lliniarol Arbenigol. Ym mis Tachwedd, cytunwyd i ddyrannu £1.5m[35] o gyllid brys ychwanegol mewn perthynas â hosbisau er mwyn cydnabod gostyngiad parhaus yn eu hincwm yn ystod y pandemig.

73. Ym mis Medi 2021, cymeradwywyd cynnig o £48 miliwn[36] o gronfeydd wrth gefn Covid-19 i gefnogi Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol. O'r swm hwn, byddai £8 miliwn yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i flaenoriaethau penodol yn ymwneud ag adfer ar ôl Covid-19 a £40 miliwn i awdurdodau lleol i'w ddefnyddio mewn gwaith gyda'u partneriaid a darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ar gyfer gweithgareddau adfer penodol. [37]

74. Ym mis Hydref 2021, gwnaed cais am £42.7 miliwn o gyllid mewn perthynas â phecyn o fesurau i fynd i'r afael ag effaith barhaus pandemig Covid-19 a chynnydd sylweddol yn y pwysau a'r galw ar y system. Gweithiodd y Pwyllgor Gweithredu Gofal, a gadeiriwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i nodi problemau uniongyrchol a chytuno ar atebion, a arweiniodd at [38]lunio cynigion a chytuno ar gyllid ar 14 Hydref 2021.

75. Yn gyffredinol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiadau rheolaidd o'r angen i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i'r sector a'r ffordd orau o sicrhau bod y sector gofal cymdeithasol yn parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru yn ystod cyfnod o bwysau a galw cynyddol.

**Anghydraddoldebau**

76. Cynhaliodd y Gweinidogion werthusiadau rheolaidd i ystyried sut y byddai polisïau yn effeithio ar grwpiau gwahanol, a gwnaed ymdrechion i ymgysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli poblogaethau amrywiol er mwyn sicrhau bod lleisiau'r rhai yr oedd polisïau gofal cymdeithasol yn effeithio arnynt fwyaf yn cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

77. Cydnabu ac ystyriodd Llywodraeth Cymru effaith wahaniaethol y pandemig ar y rheini o grwpiau gwahanol, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig:

    (a) Dyrannwyd cyllid ar gyfer gwiriadau iechyd i bobl ag anableddau dysgu er mwyn cydnabod y risgiau cynyddol i iechyd corfforol a oedd yn gysylltiedig ag anabledd dysgu. Nod y gwiriadau iechyd oedd lleihau anghydraddoldebau iechyd a'r bwriad oedd iddynt gael eu darparu gan glystyrau gofal sylfaenol: [39]

---

[34] EM/128-INQ000145163
[35] EM-129-INQ000145158
[36] AH2/073-INQ000136861
[37] Paragraff 225 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[38] Tabl ym mharagraff 229 o ddatganiad tyst Albert Heaney
[39] Paragraff 180 o ddatganiad tyst Eluned Morgan

(b) Gwnaed gwaith sylweddol i helpu'r rheini â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rhoddwyd Partneriaeth Covid-19 Gofal Dementia, a arweiniwyd gan Gwelliant Cymru, ar waith yn ystod y pandemig, er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad ar bolisi dementia. Datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia[40], a oedd yn ystyried sut i atgyfnerthu'r ddarpariaeth mewn ymateb i Covid-19. Sicrhawyd cyllid hefyd ar gyfer dau brosiect i gefnogi gofalwyr y rhieni a oedd yn byw gyda dementia mewn cartrefi gofal; [41]

(c) Cafodd mynediad at ofal iechyd i'r rheini â chyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes ei hyrwyddo drwy'r broses garlam o gyflwyno Gwasanaeth Ymgyngoriadau Fideo GIG Cymru. Roedd hyn yn gam pwysig tuag at sicrhau mynediad parhaus at ofal iechyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys y rheini a oedd yn cael gofal cymdeithasol, mewn ffordd a oedd yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i gleifion gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Gwelsom lawer o leoliadau gofal yn mynd ati'n gyflym i fabwysiadu technolegau newydd a hyfforddi staff ar brotocolau newydd.

(d) I gydnabod effaith anghymesur y pandemig ar y rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, sefydlwyd is-grŵp gofal cymdeithasol o'r Grŵp Cynghori ar Covid-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Aethpwyd i'r afael â llawer o argymhellion y Grŵp yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022[42];

(e) Defnyddiwyd amrywiaeth eang o grwpiau gwahanol fel fforwm i drafod effeithiau Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant pobl o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol a phobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol, gan gynnwys: (i) Y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, (ii) y Fforwm Cydraddoldeb Hil, (iii) Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant, (iv) Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru, (v) Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, (vi) y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, (vii) Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, a (viii) Bwrdd Gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

**Adolygiad Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig**

78. Ceisiodd Llywodraeth Cymru fyfyrio ar wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ac yn llywio strategaethau adfer.

79. Cyhoeddwyd dogfennau a chynlluniau allweddol yn ystod y pandemig wrth i wybodaeth a dealltwriaeth ddatblygu. Er enghraifft:

---

[40] EM/113- INQ000273422
[41] Paragraff 181 o ddatganiad tyst Eluned Morgan
[42] EM/112-INQ000227788

(a) Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd ‘Iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – Covid-19: Edrych tua’r dyfodol’[43], a bennodd y cyfeiriad ar gyfer adfer y system iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol, gan bwysleisio'r angen i reoli effeithiau presennol a hirdymor Covid-19 ochr yn ochr â gwneud gwelliannau i'r system a chanolbwyntio ar lesiant y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;
(b) Drafftiwyd Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol a oedd yn canolbwyntio ar adfer y sector cyfan;
(c) Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol[44] 2021-2022, a oedd yn disgrifio'r ffordd roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal a chefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyflenwad parhaus am ddim o gyfarpar diogelu personol, cyllid a chymorth ychwanegol i ofalwyr di-dâl, buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau yn y trydydd sector a chefnogi cadernid gwasanaethau gofal; ac
(d) Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd ‘Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig’[45].

80. Roedd yr adroddiadau hyn yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig ac yn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar brofiadau'r sector yn ystod y pandemig ac yn canolbwyntio ar adfer y sector a'i gynaliadwyedd.

**<u>Myfyrdodau</u>**

*Canllawiau ar Ryddhau Cleifion i Gartrefi Gofal*

81. Ar 15 Ebrill 2020, penderfynodd Llywodraeth Cymru na ddylai cleifion mewn ysbytai gael eu rhyddhau i gartrefi gofal tan eu bod wedi profi’n negatif am Covid-19. Cafodd hyn ei gadarnhau mewn llythyrau at holl ddarparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru ar 22 Ebrill 2020 ac at holl Brif Weithredwyr byrddau iechyd lleol yng Nghymru, ymhlith eraill, ar 24 Ebrill 2020. Dilynodd canllawiau Llywodraeth Cymru hyn, ar 29 Ebrill 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, gan ystyried faint o frys oedd i weithredu ar yr adeg pan gafodd y penderfyniadau hyn eu gwneud a’u rhoi ar waith, y dylid bod wedi cyhoeddi canllawiau yn gynharach.

**<u>Gwersi a ddysgwyd</u>**

82. Drwy gydol y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiogelu poblogaeth Cymru. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda sefydliadau partner, rhanddeiliaid, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gofalwyr di-dâl a'r rhai a oedd yn cael gofal cymdeithasol i atgyfnerthu

[43] EM/115-INQ000066129
[44] EM-078-INQ000480015
[45] EM/123-INQ000066072

ymateb y sector gofal cymdeithasol i'r pandemig, er mwyn hybu llesiant y rhai a oedd yn cael gofal ac achub bywydau.

83. Mae datganiad tyst corfforaethol Albert Heaney yn cynnwys tabl o'r gwersi a ddysgwyd mewn ymarferion y bu Llywodraeth Cymru yn rhan ohonynt yn ystod y pandemig ochr yn ochr â chrynodeb o'r camau gweithredu a argymhellwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru, sy'n dangos ei dull rhagweithiol o nodi gwersi a ddysgwyd a'u hymgorffori.

84. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bu'r cyswllt agos a rheolaidd rhwng llywodraeth leol a'r sector annibynnol yn effeithiol i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ymdeimlad gwirioneddol o'r hyn oedd yn digwydd ar lawr gwlad yn y sector gofal yn ystod y pandemig.

85. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu o ran y llwyddiannau y dylid eu cynnal yn y system gofal cymdeithasol er mwyn paratoi a chynllunio ar gyfer pandemig yn y dyfodol, ac o ran nodi gwelliannau y gellir eu gwneud.